Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Arsylwi yn y dosbarth – ei bwrpas a’r protocolau

© Hawlfraint y Goron 2013
WG20228

## Arsylwi yn y dosbarth – ei bwrpas a'r protocolau

Gall arsylwi yn y dosbarth fod yn adnodd pwysig wrth godi safonau drwy helpu ymarferwyr i rannu a datblygu eu sgiliau a thrwy hynny wella deilliannau i ddysgwyr. Er nad oes rheol o ran nifer y sesiynau arsylwi a ganiateir, mae'n hanfodol bod y pwyslais yn cael ei roi ar ansawdd y profiad yn hytrach na nifer y sesiynau.

I sicrhau bod y sesiynau yn bwrpasol, ac yn helpu a datblygu unigolion, dylai pawb sy'n eu trefnu ac yn cymryd rhan ynddynt ddilyn y canllawiau canlynol sy'n amlinellu pwrpas a phrotocolau arsylwi effeithiol.

### Beth a olygir wrth 'arsylwi yn y dosbarth'?

Mae 'arsylwi yn y dosbarth' yn cyfeirio at bob achlysur pan arsylwir dysgu a/neu addysgu at ddiben penodol gan rywun ar wahân i'r athro a'r staff cymorth sy'n mynd i'r dosbarth fel rheol.

## Egwyddorion a phrotocolau

**Wrth drefnu arsylwi yn y dosbarth, dylid dilyn yr egwyddorion canlynol.**

- Dylai pawb sy'n cymryd rhan mewn sesiwn arsylwi ddeall diben yr ymarfer. Dylid delio ag anghydfodau am weithdrefnau arsylwi ac ati drwy brosesau datrys problemau sefydledig yr ysgol a/neu brosesau datrys problemau cydnabyddedig mwy cyffredinol lle bo'n berthnasol.
- Lle bo'n ymarferol ac yn briodol, dylid ymdrechu i gyfuno sesiynau arsylwi at ddibenion gwahanol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o gyfleoedd i arsylwi yn y dosbarth.
- Dylid rhoi ystyriaeth ofalus wrth ddewis yr arsylwr er mwyn adlewyrchu diben y sesiwn.
- Dylai sesiwn arsylwi ategu a datblygu'r broses ddysgu ac addysgu – dylid amharu cyn lleied â phosibl ar weithgarwch arferol y dosbarth.
- Dylid cynllunio trefniadau arsylwi ymlaen llaw fel bod y rheini sy'n cymryd rhan yn cael digon o rybudd.
- Dylai'r arsylwi fod yn wrthrychol, dylai ddatblygu a helpu'r unigolyn a dylid cynnal y sesiwn mewn ffordd broffesiynol, yn gwrtais a chydag integriti.
- Mae arsylwi llwyddiannus yn galw am baratoi ac ystyriaeth briodol.
- Fel rhan o drefniadau cyffredinol yr ysgol i drefnu sesiynau arsylwi yn y dosbarth, dylai'r rheini sy'n cymryd rhan geisio cytuno ymlaen llaw ynghylch natur ac amseru unrhyw adborth ac â phwy i'w rannu.
- Wrth gynllunio a rhoi adborth, dylid ystyried amser yr athro a thelerau ac amodau statudol ei gyflogaeth.

**Yn achos arsylwi at ddiben asesu perfformiad unigolyn, dylid dilyn yr egwyddorion canlynol hefyd.**

- Dim ond person sydd â Statws Athro Cymwysedig all arsylwi sesiwn addysgu at ddiben rheoli perfformiad athro (gan gynnwys athro newydd gymhwyso ac unigolyn sy'n dilyn Rhaglen Athrawon Graddedig) ac fel rhan o weithdrefnau asesu gallu athro.
- Dylid pennu natur a phwrpas yr arsylwi a nifer y sesiynau, yn ogystal â'u ffocws mewn cyfarfod cynllunio.
- Bydd angen i ystod yr addysgu a arsylwir fod yn gytbwys er mwyn adlewyrchu amrediad o waith yr athro, ond ni ddylai orfod arddangos gormod o elfennau.
- Mae'n bwysig nad yw lefel yr arsylwi yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol er mwyn dod i ddyfarniad cadarn ar sail tystiolaeth, gan fod cynnal sesiynau yn rhy aml yn amharu ar y gwersi ac yn wrthgynhyrchiol.
- Mae angen ystyried yn ofalus yn y cyfarfod cynllunio amseru a nifer y sesiynau arsylwi i'w cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd. Dylid ystyried hefyd anghenion yr arfarnwr o ran amser i baratoi, mynd i'r sesiwn ac adrodd yn ôl wedyn. Er mwyn lleihau biwrocratiaeth mewn ysgolion, mae rhai arfarnwyr, er enghraifft, yn ei chael yn hwylus trefnu eu sesiynau yn ôl toriadau naturiol yn y flwyddyn academaidd, fel tymhorau.
- Dylid rhoi o leiaf bum diwrnod gwaith o rybudd cyn sesiwn arsylwi felly.
- Mae'n bwysig cynnal y sesiynau a arsylwir mewn amgylchedd sydd mor arferol â phosibl.
- Dylid rhoi adborth adeiladol cyn gynted â phosibl ar ôl y sesiwn a chadarnhau hwnnw'n ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith. Dylid rhoi cyfle i'r athrawon ychwanegu eu sylwadau ysgrifenedig eu hunain at yr adborth hwn.
- Dylai pawb sy'n gweld yr wybodaeth am y sesiynau barchu cyfrinachedd y broses a gofalu bod darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 yn cael eu dilyn bob amser.

## Dibenion arsylwi yn y dosbarth

Gellir rhannu dibenion arsylwi i'r meysydd canlynol (gellid eu rhannu ymhellach wrth gwrs).

1. **Arsylwi'r broses ddysgu** ymhlith dysgwyr unigol a/neu grwpiau o ddysgwyr, er enghraifft:
   - tracio cynnydd unigolion a/neu grwpiau ar draws y cwricwlwm
   - profiadau dysgwyr mewn gwahanol leoliadau
   - codi ymwybyddiaeth llywodraethwyr.

2. Fel rhan o **ddatblygiad proffesiynol parhaus**, er enghraifft:
   - rhannu arferion effeithiol
   - rhannu profiad a datblygu ar y cyd
   - arsylwi cydathrawon
   - fel rhan o drefniadau hyfforddi a mentora
   - canllawiau neu gyngor arbenigol – megis ar dechnegau addysgu, meysydd y cwricwlwm, defnyddio offer TGCh ac ati.

3. **Monitro ansawdd yr addysgu**, gan gynnwys:
   - fel rhan o’r cylch rheoli perfformiad blynyddol yn unol â Pholisi Rheoli Perfformiad yr ysgol
   - fel rhan o weithdrefnau i asesu gallu athro yn unol â Pholisi Gallu yr ysgol
   - fel rhan o broses sefydlu statudol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru
   - fel rhan o’r Rhaglen Athrawon Graddedig (neu raglenni eraill i athrawon newydd) yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru
   - at ddibenion asesu prosesau dysgu ac addysgu’r ysgol gyfan
   - fel rhan o drefniadau arolygu.